

Cynllun Iaith Gymraeg

y

Sefydliad Dysgu a Gwaith

Adolygwyd Mawrth 2019

Paratowyd y cynllun gwirfoddol hwn yn unol â Chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cymeradwyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 22 Awst 2011.

Cynllun Iaith Gymraeg y Sefydliad Dysgu a Gwaith – adolygwyd Mawrth 2019

1. Cyflwyniad

Sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol newydd ydy'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, sydd yn ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant. Rhyngom, mae gennym dros 90 mlynedd o hanes a threftadaeth gyfun o'r 'Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaus i Oedolion' a'r 'Ganolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol'.

Rydym eisiau i bawb gael cyfle i wireddu eu huchelgeisiau a'u potensial mewn dysgu, gwaith a thrwy gydol eu hoes.

Rydym yn credu bod gweithlu mwy medrus, mewn swyddi ar gyflogau gwell, yn dda i fusnes, yn dda i'r economi, ac yn dda i gymdeithas.

Rydym eisiau i ddysgu a gweithio gyfrif.

Mae Polisi Cyfle Cyfartal y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn nodi sut mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn bwriadu hyrwyddo cyfle cyfartal, dathlu amrywiaeth, a datblygu arferion gwrthwahananiaethol yn ei waith. Gellir cael copi o'r Polisi Cyfle Cyfartal llawn ar gais.

Datganiad o fwriad eglur a chyhoeddus y sefydliad yw:

"Sicrhau bod gwaith y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn hyrwyddo cyfle cyfartal, cyfiawnder cymdeithasol, cynhwysiant ac yn dathlu amrywiaeth - yn enwedig mewn perthynas â rhyw pobl, anabledd, anhawster dysgu, oedran, hil, lliw, cenedligrwydd, ethnigrwydd, statws economaidd neu briodasol, statws HIV / AIDS, aelodaeth o undeb llafur, rhywioldeb, amgylchiadau teuluol, credoau gwleidyddol neu grefyddol, iaith neu ddiwylliant. "

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn fynegiant o'r bwriad hwn mewn perthynas â'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y sefydliad wrth ymdrin â'r holl aelodau, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi gofyn yn rheolaidd am farn ei aelodau ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Mae adolygu'r cynllun hwn yn ffordd o adolygu arfer a'r ddogfennaeth ffurfiol sy'n cefnogi arfer.

Ym 1998, fel NIACE Cymru, mabwysiadodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith strategaeth ddwyieithog oedd yn disgrifio'r defnydd o'r Gymraeg o fewn NIACE. Yn 2005, mabwysiadwyd Cynllun Iaith Gymraeg, ac mae'r diwygiad hwn o'r ddogfen hon yn gosod cynllun ar ffurf sy'n addas i'w gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r diwygiad hwn yn ymrwymiad gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith i ddarparu datganiad clir o egwyddorion ac arfer yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer aelodau o'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, defnyddwyr eraill ei wasanaethau, budd-ddeiliaid yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith a staff.

2. Datganiad

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth ddarparu ei wasanaethau yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar yr egwyddor o gydraddoldeb, fel y nodir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, a chyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Yn unol â hynny, mae'n ceisio sicrhau bod pawb sy'n cysylltu â'r sefydliad ac sy'n defnyddio ei wasanaethau yng Nghymru, yn derbyn y gwasanaethau hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol. Wrth gydnabod dwy iaith Cymru, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cyflwyno'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal o fewn cyfyngiadau'r gyllideb.

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg i gydnabod bod: -

- Unigolion yn gallu mynegi eu barn a chyfleu eu hanghenion yn well yn eu hiaith ddewisol
- Galluogi unigolion i ddefnyddio eu hiaith ddewisol yn rhan bwysig o arfer da
- Gwrthod yr hawl i unigolion ddefnyddio eu hiaith ddewisol yn gallu eu rhoi dan anfantais.

Fel rhan o'i waith, ac wrth hyrwyddo cydraddoldeb mynediad i addysg barhaus i oedolion, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn hybu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac, yng Nghymru, yn hybu'r ddarpariaeth o gyfleoedd i oedolion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru yn cael ei wneud gan y staff yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, a bydd y mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn yn cael eu gweithredu i raddau helaeth ganddynt. Bydd y cyfrifoldeb dros gydymffurfio â'r cynllun yn gorwedd gyda Chyfarwyddwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru, a fydd yn adrodd ar ei weithredu i Grŵp Strategaeth Cymru y Sefydliad Dysgu a Gwaith, a thrwy Brif Weithredwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith i aelodau'r Bwrdd.

Er mwyn gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn llwyddiannus, bydd gan holl staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith a fydd yn gweithio yng Nghymru ran i'w chwarae, a bydd cyfleoedd hyfforddi a datblygu, cefnogaeth a dogfennau cyfarwyddyd yn cael eu cynnig i staff i'w galluogi i wneud hynny. Pan fydd aelodau eraill o staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn gweithio yng Nghymru, dylent ofyn am arweiniad gan Gyfarwyddwr Cymru, neu gan aelodau priodol eraill o staff ar sut i gydymffurfio â gofynion y cynllun.

Unwaith y bydd y cynllun diwygiedig wedi cael ei gymeradwyo gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith a gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, dim ond gyda chymeradwyaeth Grŵp Strategaeth Cymru y Sefydliad Dysgu a Gwaith, a Phrif Weithredwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith, y bydd yn gallu cael ei newid.

3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau

3.1 Cynllunio Gwasanaethau

Wrth gynllunio pob agwedd ar ei waith, cyflwyno gwasanaethau i aelodau'r Sefydliad Dysgu a Gwaith ac i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, ac wrth reoli a llywodraethu, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn ystyried y defnydd o'r iaith Gymraeg, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau cyfartal yn Gymraeg a Saesneg fel y nodir isod.

3.2 Cyflwyno Gwasanaethau

Nod y Sefydliad Dysgu a Gwaith ydy darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru. Yn unol â'r cynllun gweithredu a'r canllawiau isod, byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy: -

- annog defnyddwyr gwasanaethau y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru i deimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny
- sicrhau bod holl staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith sydd yn gweithio yng Nghymru yn hyderus ac yn gyfforddus ynghylch y ffaith eu bod yn gwybod sut i ymateb i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg
- sicrhau bod holl staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith sydd yn gweithio yng Nghymru yn gwybod sut i gyfeirio unigolion at wasanaethau iaith Gymraeg
- ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu dibynadwy o safon uchel, er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael eu cyfieithu'n gyflym ac yn ddibynadwy
- asesu effeithiolrwydd y cynllun yn rheolaidd, drwy adolygu canrannau'r ymholwyr neu gyfranogwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg o fewn gwasanaethau

neu weithgareddau'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru, o'i gymharu â'r dadansoddiad demograffig disgwylidig.

Mae egwyddorion yr arfer ar gyfer y cynllun iaith Gymraeg wedi'u nodi isod, ynghyd â chynllun gweithredu sy'n rhoi enghreifftiau a dehongliad mwy manwl yn Atodiadau A a B.

4. Cyfathrebu

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn croesawu cyfathrebu gydag aelodau, grwpiau eraill ac unigolion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn anelu at drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal.

4.1 Gohebiaeth ysgrifenedig a gohebiaeth electronig seiliedig ar destun

Bydd gohebiaeth ysgrifenedig a gohebiaeth electronig seiliedig ar destun a dderbynnir yn cael ei hateb yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl yr iaith wreiddiol. Bydd pobl sy'n dechrau cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu dewis derbyn ateb yn Saesneg.

Bydd gohebiaeth ysgrifenedig gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith i'w aelodau yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg fel arfer. Mewn amgylchiadau penodol a nodir yn y canllawiau isod, bydd gohebiaeth naill ai yn Gymraeg neu Saesneg.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg, a bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb yn yr iaith ddewisol.

4.3 Cynadleddau a digwyddiadau

Fel arfer, bydd siaradwyr ac arweinwyr gweithdai yng nghynadleddau, seminarau a digwyddiadau yng Nghymru yn gallu gwneud eu cyfraniad yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis (gweler y canllawiau).

Rhoddir arweiniad pellach ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cynadleddau a digwyddiadau yn Atodiad B

4.4 Cyfarfodydd Eraill

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn trefnu nifer o gyfarfodydd grwpiau yng Nghymru. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn Saesneg, yn Gymraeg neu yn ddwyieithog, yn unol â dewis ieithyddol y grŵp, ar yr amod bod adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu i'r grŵp. Bydd iaith ddewisol pob grŵp yn cael ei chadarnhau bob blwyddyn.

5. Delwedd Gyhoeddus y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru, sy'n cynnwys ei gyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, ei wefan ac unrhyw wybodaeth safonol arall yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys papur pennawd, slipiau cyfarch, taflenni ffacs, cardiau busnes, bathodynau enw, arddangosfeydd a chyhoeddiadau, arwyddion, cerbydau ac adeiladau.

Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, fformat, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Yng Nghymru, bydd yr holl arwyddion allanol a mewnol mewn manau cyhoeddus yn adeilad y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn ddwyieithog, ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Os bydd angen defnyddio arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal.

6. Cyhoeddiadau

6.1 Cyhoeddiadau ysgrifenedig

Bydd deunydd cyhoeddus wedi'i argraffu, sy'n cael ei greu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, ac sydd â'r cyhoedd a/neu aelodau o'r Sefydliad Dysgu a Gwaith neu ei ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru fel ei gynulleidfa fwriadedig, yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn cynnwys posteri, ffurflenni, llawlyfrau, adroddiadau blynyddol, datganiadau, papurau trafod, papurau gwybodaeth, cylchlythyrau a holl gyhoeddiadau maint byr neu ganolig. Lle bo hynny'n ymarferol, bydd y dogfennau yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog, ac os bydd fersiynau ar wahân yn cael eu creu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi'r un pryd.

O ran cyhoeddiadau mwy sydd yn cael eu cynhyrchu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith e.e. llyfrau, mae pecynnau hyfforddi ac arweiniad ar becynnau cymorth wedi cael eu datblygu i adlewyrchu'r cyhoeddiad priodol yn y ddwy iaith.

6.2 Cyhoeddiadau sain/gweledol

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cynhyrchu ffilmiau a straeon digidol sy'n ddehongliadau o straeon dysgwyr unigol – mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu mynegi yn eu lleisiau eu hunain ac yn lleisiau eu ffrindiau. Trwy ganiatáu iddynt ddefnyddio'r iaith o'u dewis, anaml iawn y mae'n bosibl cynhyrchu ffilm ddwyieithog. Mae rhai yn cael eu creu yn Saesneg a rhai yn Gymraeg, gydag is-deitlau Saesneg. Rydym yn ceisio adlewyrchu demograffeg ieithyddol Cymru o fewn cydbwysedd nifer y ffilmiau Cymraeg a Saesneg. Bydd gan yr holl ffilmiau sydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cynulleidfa yng Nghymru gapsiynau dwyieithog.

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cynhyrchu ffilmiau hyrwyddol yng Nghymru hefyd, ac mae'r rhain yn cael eu creu yn ddwyieithog, gyda chapsiynau dwyieithog, cydbwysedd o Gymraeg a Saesneg lle mae iaith lafar, ac is-deitlau lle siaredir Cymraeg.

7. Gwaith gyda'r wasg a chyfryngau eraill

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau'r cyfryngau yng Nghymru, a gweithio trwy gyfrwng y ddwy iaith.

Bydd pob datganiad i'r wasg yn cael eu creu yn y ddwy iaith, a naill ai'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu i'r cyfryngau priodol, yn eu hiaith eu hunain ar yr un pryd.

Bydd manylion cyswllt cynrychiolwyr a roddir mewn datganiadau i'r wasg naill ai'n siaradwyr Cymraeg, neu yn aelod o staff sy'n gallu cysylltu â siaradwr Cymraeg sy'n barod i siarad ar ran y Sefydliad Dysgu a Gwaith lle bo hynny'n ymarferol.

8. Y wefan a TGCh

Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru wefan ar wahân, sef gwefan gwbl ddwyieithog, sydd ag enw parh ei hun. Mae dolen glir i'r wefan hon yn cael ei dangos hefyd ar dudalen hafan gwefan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn Lloegr, ac mewn manau eraill ar y safle.

Mae'r defnydd o rwydweithiau electronig e.e. rhwydweithiau cymdeithasol, yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Lle bo'n briodol, bydd cyfraniadau iddynt oddi wrth y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn ddwyieithog; lle nad yw hyn yn briodol, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i adlewyrchu demograffeg ieithyddol Cymru.

Bydd canllawiau'n cael eu creu fel rhan o'r datblygiad presennol.

9. Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Cyfarwyddwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru, sef un o uwch swyddogion y Sefydliad Dysgu a Gwaith, sydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun, ac am sicrhau bod y gwaith o fonitro a gwerthuso'r cynllun yn cael ei wneud a'i adrodd i Gyfarwyddwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith ac i Grŵp Strategaeth Cymru.

9.1 Staffio

Er mwyn sicrhau bod lefelau priodol o arbenigedd yn yr iaith Gymraeg ar gael ymysg y staff yng Nghymru, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn:

- Adolygu pob swydd wrth benodi, ac asesu pa mor ddymunol yw'r Gymraeg a'r lefel sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei swyddogaeth, hysbysebu'r gofyniad hwnnw, ac asesu'r gofyniad wrth benodi
- Sicrhau bod o leiaf un o'r uwch aelodau o staff yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl
- Adolygu cymhwysedd iaith staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru, asesu a yw'r gallu cyffredinol yn ddigonol ac mewn achos o ddiffyg, gwneud penderfyniadau recriwtio a hyfforddi penodol
- Cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i staff fel cyfle datblygu personol ac i gynyddu capasiti, a'u hannog nhw i fanteisio o hyfforddiant o'r fath.

Bydd canllawiau yn cael eu cynhyrchu i staff i'w cynorthwyo i weithredu'r cynllun yn gyson (Atodiadau A a B).

Bydd deall y cynllun yn rhan hanfodol o broses ymsefydlu staff newydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru. Pan fydd staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith, sydd fel arfer yn gweithio yn Lloegr, yn gweithio yng Nghymru, disgwylir iddynt ofyn am arweiniad ar y camau y mae angen iddynt eu cymryd i gefnogi'r broses o weithredu'r cynllun.

9.2 Adnoddau

Byddwn yn chwilio am adnoddau priodol a'u neilltuo i weithredu'r cynllun, a bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sicrhau bod yr adnoddau hynny yn cael eu defnyddio i'r eithaf, drwy gynllunio a rheoli'r broses o weithredu'r cynllun yn dda.

9.3 Monitro

Cyfarwyddwr Cymru sydd â'r cyfrifoldeb am sicrhau bod y cynllun yn cael ei fonitro.

Bydd dulliau monitro yn cynnwys:-

- Adolygu cwynion a'r mesurau a gymerir i fynd i'r afael â nhw
- Monitro samplau o ohebiaeth gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith i eraill yng Nghymru
- Monitro samplau o ymatebion i ohebiaeth sy'n dod i mewn
- Goruchwyllo deunyddiau hyrwyddo ac arddangos
- Monitro ceisiadau am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Asesu cydbwysedd ieithyddol defnyddwyr y gwasanaethau neu bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau, o'u cymharu â'r cydbwysedd yn y boblogaeth berthnasol

Bydd grŵp Strategaeth Cymru, fel gwasanaeth sy'n derbyn aelodau o'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, hefyd yn gallu ymgymryd â gwaith monitro.

Dylai adroddiad ar y cynllun gael ei ddarparu bob blwyddyn ar gyfer Grŵp Strategaeth Cymru y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gopïo i'r Comisiynydd Iaith.

9.4 Gwerthuso

Pob tair blynedd, bydd arolwg o aelodau a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael ei gynnal, i sicrhau eu bod yn fodlon ar weithrediad y cynllun a gyda lefel y gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd adroddiad ar yr arolwg ac ar y cynllun yn cael ei baratoi i Fwrdd y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Byddwn yn asesu canran defnyddwyr gwasanaethau y Sefydliad Dysgu a Gwaith sy'n siaradwyr Cymraeg, a bydd hyn yn cael ei fesur yn erbyn canran y boblogaeth sydd yn siaradwyr Cymraeg. Byddai'r asesiad hwn yn cymryd i ystyriaeth amrywiadau daearyddol yn y canran o siaradwyr Cymraeg.

Byddai asesiad tebyg yn cael ei wneud o aelodau y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru.

Bydd unrhyw ddiffyg yn y ganran ddisgwyliedig o siaradwyr Cymraeg yn cael ei archwilio, a bydd newidiadau priodol i'r cynllun yn cael eu gwneud drwy ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

10. Cyhoeddi'r cynllun

Bydd aelodau'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a defnyddwyr eraill ei wasanaethau, yn cael eu gwneud yn ymwybodol o fodolaeth y cynllun a'i gynnwys.

Dylai unrhyw un sy'n teimlo nad yw'r gwasanaeth maen nhw wedi'i gael yn cydymffurfio â'r cynllun, gyflwyno eu sylwadau i Gyfarwyddwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru yn ysgrifenedig neu ar lafar yn Gymraeg neu Saesneg. Byddant yn derbyn ymateb ysgrifenedig yn iaith eu sylwadau o fewn deng diwrnod ar ôl derbyn eu sylwadau. Bydd y sylwadau hyn, ynghyd â'r ymateb, yn cael eu cofnodi a'u ffeilio at ddibenion monitro.

Atodiad A

Amserlen Gweithredu

Gwasanaeth	Gweithred	Dyddiad gweithredu
Ymholiadau	Bydd ymholiadau ysgrifenedig yn cael eu hateb yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl iaith yr ymholiad.	Arfer cyfredol
	Bydd ymholiadau dros y ffôn yn cael eu hateb yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl dewis yr ymholwr. Mae canllawiau wedi cael eu llunio i helpu pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg i gydymffurfio â'r weithred hon (Gweler Atodiad B)	Arfer cyfredol
	Os yw natur ymholiad iaith Gymraeg yn gofyn am ateb cymhleth sy'n dibynnu ar arbenigedd aelod o staff sydd ddim yn siarad Cymraeg, bydd yr ymholwr yn cael cynnig y dewis o gael ymateb ar lafar neu ar bapur yn Saesneg, neu ymateb ar bapur yn Gymraeg.	Arfer cyfredol
Darparu gwybodaeth		
	Bydd dogfennau gwybodaeth sydd yn cael eu creu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith ar gyfer defnydd y cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd gohebiaeth fewnol yn cael ei hanfon ymlaen, fel y bo'n briodol.	Arfer cyfredol
	Bydd dogfennau gwybodaeth sydd yn cael eu dosbarthu ar ran sefydliadau eraill yn cael eu cynnwys fel maen nhw'n cael eu cyflwyno i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith.	Arfer cyfredol
Cynadleddau a digwyddiadau yng Nghymru	Mae set o ganllawiau wedi cael eu datblygu i geisio gwneud yn siŵr bod pob ymdrech resymol yn cael ei wneud i sicrhau bod pobl sy'n mynychu digwyddiadau yn gallu cymryd rhan yn y gynhadledd yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis (gweler atodiad B)	Arfer cyfredol
	Bydd yr holl waith papur a'r ffurflenni bwcio ar gyfer cynadleddau yn ddwyieithog, a bydd ffurflenni bwcio yn cynnwys cwestiwn am y dewis iaith	Arfer cyfredol
	Bydd staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith sy'n mynychu cynadleddau a digwyddiadau yng Nghymru, yn cynnwys rhywun sy'n gallu siarad Cymraeg, lle bo hynny'n ymarferol	Arfer cyfredol
	Mae staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith ac aelodau o'r grŵp Strategaeth sy'n siarad Cymraeg, sy'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg, ac sy'n cyfrannu mewn	Arfer cyfredol

	digwyddiad ar ran y Sefydliad Dysgu a Gwaith, yn cael eu hannog i wneud hynny yn Gymraeg, fel y bo'n briodol	
Cyflwyniadau gan staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn cynadleddau sy'n cael eu trefnu gan sefydliadau eraill	Bydd cyflwyniadau a thafenni Powerpoint sydd yn cael eu paratoi i gyd-fynd â chyflwyniadau, yn ddwyieithog, lle bo hynny'n ymarferol. Bydd staff yn cyfarch ac yn cyflwyno'n ddwyieithog.	Arfer cyfredol
	Mae staff sydd yn well ganddynt gyflwyno yn Gymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny, os oes cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.	Arfer cyfredol
	Dylai staff sydd yn hyderus ac yn barod i gyflwyno yn Gymraeg ddarganfod pa iaith y byddai'n well gan y sefydliad sy'n trefnu'r gynhadledd iddynt ei defnyddio	Arfer cyfredol
Grwpiau a rhwydweithiau sy'n cael eu gwasanaethu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, yn cynnwys y grŵp rheoli ac unrhyw is-bwyllgorau,	Unwaith y flwyddyn, mae'n rhaid i bob grŵp, pwyllgor neu is-bwyllgorau yng Nghymru ystyried dewisiadau ieithyddol eu haelodau a phenderfynu a fydd y grŵp: - <ul style="list-style-type: none"> • yn gweithredu yn Gymraeg neu Saesneg • angen offer cyfieithu ar y pryd • angen gwaith papur Saesneg, Cymraeg neu ddwyieithog Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu llywio gan ystyriaethau cyllidebol.	Yng nghyfarfod cyntaf bob grŵp ar ôl Ebrill 1af bob blwyddyn
Cyhoeddiadau y Sefydliad Dysgu a Gwaith	When project funding is sought in Wales that includes the publication of Books, Guidelines, Information packs, CDs and any other publications, costings should be included to produce bilingual publications if possible. Where separate English and Welsh publications are required the two versions should:- <ul style="list-style-type: none"> • be published at the same time • be of similar quality and very similar content • contain a statement that the other language version is available When requested a Welsh and an English copy should be provided for the same cost as a single language copy. Wrth ymgeisio am gyllid ar gyfer prosiect yng Nghymru, sy'n cynnwys cyhoeddi Llyfrau, Canllawiau, pecynnau gwybodaeth, CDau ac unrhyw gyhoeddiadau eraill, dylid cynnwys y gost o gynhyrchu cyhoeddiadau dwyieithog os oes modd.	Arfer cyfredol

	<p>Mewn achosion ble mae angen cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân, dylai'r ddwy fersiwn: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • gael eu cyhoeddi ar yr un pryd • fod o ansawdd tebyg a chynnwys tebyg iawn • gynnwys datganiad yn nodi bod y fersiwn iaith arall ar gael <p>Pan ofynnir, dylai copïau Cymraeg a Saesneg gael eu darparu am yr un pris â chopïau uniaith.</p>	
Dull Cyfathrebu	Gweithred	
Ffôn	Bydd negeseuon peiriant ateb neu negeseuon llais yn ddwyieithog.	Arfer cyfredol
	Bydd swydd derbynnydd ffôn rheng flaen yn dwyn y dynodiad bod siaradwr Cymraeg yn hanfodol.	Ar hyn o bryd, nid oes gennym swydd fel hyn
	Bydd staff yn ateb yr holl alwadau ffôn gyda chyfarfod dwyieithog (gweler yr atodiad).	Arfer cyfredol
	Mae canllawiau wedi cael eu paratoi ar gyfarchion dwyieithog i staff sydd ddim yn siarad Cymraeg sy'n gorfod ateb y ffôn, ac ar sut i ddelio gyda galwyr sydd eisïau defnyddio'r Gymraeg.	Arfer cyfredol
Gohebiaeth ysgrifenedig-mae hyn yn cynnwys e-byst	Bydd ymatebion i lythyrau neu negeseuon e-bost a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg. Bydd derbynnydd yr ymateb yn gallu dewis cael ateb yn Saesneg, os oes angen ateb ar unwaith	Arfer cyfredol
	Bydd llythyrau, e-byst a chylchlythyrau sydd yn cael eu hanfon gan staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru i aelodau cyffredinol, grwpiau, rhwydweithiau neu i unigolion y mae eu dewis iaith yn anhysbys, fel arfer yn cael eu hanfon yn ddwyieithog	Arfer cyfredol
	Bydd llythyrau sydd yn cael eu hanfon i unigolion gan aelod unigol o staff yn yr iaith gyfathrebu arferol.	Arfer cyfredol
	Bydd cylchlythyrau, taflenni briffio, taflenni gwybodaeth, dogfennau ymgynghori, taflenni, ffurflenni neu unrhyw fath arall o ddeunydd ysgrifenedig cyffredinol sydd yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, yn ddwyieithog.	Arfer cyfredol
Delwedd Gyhoeddus	Gweithred	

Logo	Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith logo dwyieithog	Arfer cyfredol
Arwyddion	Bydd holl arwyddion y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn swyddfeydd yng Nghymru, neu mewn cynadleddau, digwyddiadau neu gyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru, yn ddwyieithog	Arfer cyfredol
Profformas papur ac electronig	Bydd yr holl bapurau pennawd, slipiau cyfarch, penawdau ffacs, penawdau negeseuon e-bost ac unrhyw ddeunyddiau profforma eraill sy'n cyfrannu at y ddelwedd gyhoeddus yng Nghymru, yn ddwyieithog	Arfer cyfredol
Posterï	Fel arfer, bydd posterï sydd yn cael eu creu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog. Mewn achosion ble mae ystyriaethau eraill yn rhwystro hyn, gellir creu fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân o boster, ond mae'n rhaid i'r canllawiau ar gyfer ei ddefnyddio argymhell bod y ddau boster yn cael eu harddangos.	Arfer cyfredol
Taflenni hyrwyddo	Bydd taflenni sydd yn cael eu creu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog, oni bai eu bod nhw wedi cael eu creu yn benodol ar gyfer cynulleidfa darged nad Cymraeg na Saesneg yw ei brif iaith.	Arfer cyfredol
Arddangosfeydd ac Arddangosiadau	Bydd unrhyw arddangosfeydd neu arddangosiadau, gan gynnwys fideos, a ddefnyddir i hysbysebu'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a'i wasanaethau a'i weithgareddau yng Nghymru, yn ddwyieithog neu yn y ddwy iaith, a bydd y ddwy yn cael eu harddangos	Arfer cyfredol
Hysbysebion		
Mewn print	Fel arfer, bydd hysbysebion am dâl ar gyfer swyddi staff, contractau, gwasanaethau a ddarperir ac yn y blaen yng Nghymru, yn ddwyieithog. Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, gall hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn unig, ond bydd angen rhoi nodyn esboniadol yn Saesneg.	Arfer cyfredol
Teledu neu Radio	Bydd hysbysebion yn yr iaith sy'n briodol i'r sianel. Bydd y cydbwysedd o ran nifer yr hysbysebion Cymraeg/Saesneg yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gynulleidfa a dargedir.	Arfer cyfredol
Gwaith cyfryngau		
	Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi i'r cyfryngau priodol yn y ddwy iaith ar yr un pryd.	Arfer cyfredol
	Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i ddarparu llefarywyr cymwys i ymateb i ymholiadau'r wasg yn Gymraeg neu Saesneg	Arfer cyfredol

Digwyddiadau hyrwyddo	Bydd yr holl ddigwyddiadau hyrwyddo yng Nghymru yn ddwyieithog (gweler y Canllawiau)	Arfer cyfredol
Cyflwyniad staff	Bydd unrhyw aelod o staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith neu aelod o grŵp Strategaeth Cymru sy'n cynrychioli'r Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn unrhyw gyfarfod, cynhadledd ac yn y blaen, yn defnyddio cyfarchiad dwyieithog wrth gyflwyno eu hunain, ac yn defnyddio enw llawn y Sefydliad Dysgu a Gwaith.	Arfer cyfredol
Gwefannau	Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod gwefan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog, ac yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer dylunio a osodwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai eitemau gael eu llwytho i fyny mewn un iaith ac nid y llall o bryd i'w gilydd; yn yr achos hwn, bydd neges yn cael ei llwytho i fyny yn yr iaith briodol yn rhoi'r amserlen ddisgwyliedig i'r cyfieithiad fod yn barod, os yw'n briodol.	Arfer cyfredol
Rhwydweithio Cymdeithasol	Ar hyn o bryd, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn datblygu Strategaeth Gyfathrebu sy'n cynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter, You Tube, Blogiau ac yn y blaen. Ni ragwelir y bydd yn bosibl i bopeth fod yn ddwyieithog, neu gael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith. Y nod fydd adlewyrchu cydbwysedd demograffig y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y wlad a, lle bo'n berthnasol, mewn ardaloedd penodol o Gymru. Bydd canllawiau'n cael eu datblygu fel rhan o'r broses o weithredu Strategaeth Gyfathrebu y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru.	Arfer cyfredol
Staffio	Bydd gallu iaith Gymraeg staff y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, er mwyn asesu os ydy'r gallu cyffredinol yn ddigonol ac mewn achos o ddiffyg, i wneud penderfyniadau penodol ynghylch recriwtio neu hyfforddiant yng Nghymru.	Adolygiad cyntaf

Atodiad B

Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Canllawiau i Staff

Mae'r HOLL staff yn gyfrifol am hyrwyddo delwedd ddwyieithog y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg neu beidio.

Ateb y ffon

Gofynnir i staff sy'n siarad Cymraeg gefnogi'r staff hynny sydd ddim yn rhugl i ddarparu gwasanaeth da i siaradwyr Cymraeg. Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i helpu dysgwyr gydag ynganiad ac ymatebion priodol.

Bydd yr **HOLL** staff yng Nghymru sydd yn ateb llinell allanol yn rhoi cyfarchiad dwyieithog:-

Yn y bore:-

"Bore da, Sefydliad Dysgu a Gwaith. Good Morning, Learning and Work Institute."

Neu yn y prynhawn:-

"Prynhawn da, Sefydliad Dysgu a Gwaith. Good afternoon, Learning and Work Institute."

Os bydd y galwr yn parhau yn Gymraeg, yna bydd gan y staff sydd ond yn siarad ychydig o Gymraeg y dewis o sut i barhau.

Os byddwch yn cydnabod eu bod yn gofyn am aelod penodol o staff, a bod y person hwnnw ar gael, gallwch ddweud: -

O ddewis

"Dalier ar y lein os gwelwch yn dda" a'u trosglwyddo nhw

NEU

"Hold the line please" a'u trosglwyddo nhw

Os nad ydych chi'n eu deall nhw, mae nifer o opsiynau:-

Os oes siaradwr Cymraeg ar gael, gallech ddweud

"Mae'n flin gennyf. Dw'i ddim yn siarad Cymraeg, yn dda. Would you like to speak to someone who does, or can I help?"

NEU

"I'm sorry I don't speak Welsh. Would you like to speak to someone who does, or can I help?"

NEU (heb ymddiheuriad)

"I don't speak Welsh. Would you like to speak to someone who does, or can I help you?"

Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, yna dylech ddweud:-

"I am sorry there is no Welsh speaker available at the moment would you like someone to ring you back or can I help you?"

Mae staff sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu hannog i barhau â'r sgwrs ymhellach yn Gymraeg, a gall staff sy'n siarad Cymraeg roi hyfforddiant ar ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg, Pan fydd unrhyw staff yn awyddus i wella eu defnydd o'r Gymraeg, bydd cardiau annog Cymraeg yn cael eu creu i helpu.

DS Ar y cyfan, mae siaradwyr Cymraeg yn galonogol iawn gyda dysgwyr.

Disgwylir i staff sy'n ateb y ffôn ac sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg ymateb i iaith ddewisol y galwr.

Cynadleddau a Digwyddiadau

Mae'r holl gynadleddau a digwyddiadau yn ffurfio rhan o ddelwedd gorfforaethol y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Yn anaml iawn y gellir darparu cynhadledd neu ddigwyddiad sy'n gwbl ddwyieithog. Fodd bynnag, gellir gwneud llawer i sicrhau bod cyflwyniad y digwyddiad yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru ac ymrwymiad y Sefydliad Dysgu a Gwaith i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a rhoi'r dewis i bobl sy'n siarad y ddwy iaith o ba iaith maen nhw'n ei defnyddio yng Nghymru.

Dylid rhoi ystyriaeth i leoliad daearyddol y digwyddiad wrth benderfynu faint o Gymraeg sydd yn cael ei gynnwys. Dylid ceisio defnyddio mwy o'r iaith Gymraeg yn yr ardaloedd ble y gallech ddisgwyl i gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg fod yn bresennol.

Rhaglen

Mae staff sydd yn datblygu'r rhaglen ar gyfer cynhadledd neu ddigwyddiad yn cael eu hannog i: -

- ddod o hyd i gadeirydd neu gyflwynydd dwyieithog
- ddarparu rhywfaint o fewnbwn iaith Gymraeg (siaradwr, fideo ac ati)
- roi'r dewis i gyflwynwyr o ba iaith maen nhw eisiau ei defnyddio i gyflwyno
- ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd fel y bo'n briodol (gweler isod)
- friffio'r cadeirydd / cyflwynydd i annog cyfraniadau gan y gynulleidfa yn y naill iaith
- geisio rhoi'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhai o grwpiau bach neu weithdai'r gynhadledd

Gweinyddu

Dylai'r holl waith papur ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau yng Nghymru fod yn ddwyieithog

Dylai ffurflenni bwcio gynnwys cwestiwn am yr iaith ddewisol
Dylai arwyddion a ddefnyddir o amgylch y digwyddiad fod yn ddwyieithog
Lle bo modd, dylai o leiaf un aelod o staff y dderbynfa fod yn ddwyieithog. Os nad oes unrhyw aelod o staff y dderbynfa yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, yna gofynnir i staff eraill sy'n siarad Cymraeg ac sy'n bresennol yn y gynhadledd i helpu.

Cyfieithu ar y pryd

Os oes unrhyw ran o'r digwyddiad yn mynd i fod yn Gymraeg yn unig, dylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (neu is-deitlau ar gyfer ffilm / fideo), a dylid cynnwys y gost hon yng nghyllideb y prosiect.

Os bydd y cadeirydd / cyflwynydd yn ddwyieithog, ac yn barod i gyflawni eu rôl yn ddwyieithog, ond na fydd unrhyw gyflwyniad arall yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg, yna dylid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os:-
Mynegodd mwy na 15% o'r cynrychiolwyr neu 10 person ddymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ôl yr adnoddau sydd ar gael.

Os na fydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu, yna dylai cyfranogwyr sydd wedi mynegi'r awydd i ddefnyddio'r Gymraeg gael eu hysbysu o'r penderfyniad hwn cyn y digwyddiad. Gellir gofyn i gadeirydd neu gyflwynydd dwyieithog i annog cyfranogwyr sy'n gwneud cyflwyniadau byr (fel cwestiynau gan y gynulleidfa) ac sydd eisiau defnyddio'r Gymraeg, i wneud hynny, a byddan nhw (neu aelod o staff sy'n siarad Cymraeg) yn gweithredu fel cyfieithydd.

Rôl y Cadeirydd neu'r Cyflwynydd

Pan fydd Cadeirydd neu'r Cyflwynydd yn barod i weithredu'n ddwyieithog, dylid gofalu peidio â chymryd mantais ohonyn nhw a'u gallu. Dylid ystyried faint o gyflwyniad sydd yn mynd i gael ei wneud gan y Cadeirydd / cyflwynydd, eu gallu i weithio'n hollol ddwyieithog, a'r straen ychwanegol o ganlyniad. Mae angen ystyried hefyd, yr amser ychwanegol a gymerir i gyflwyno popeth ddwywaith. Gallai fod yn well gofyn i'r Cadeirydd neu'r Cyflwynydd: -

- wneud hynny yn Gymraeg yn unig a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd,
- gyflwyno fel y bo'n briodol i'r rhan o'r rhaglen h.y. cyflwyno darnau Saesneg yn Saesneg, a darnau perthnasol i Gymru yn y Gymraeg.

Cefndir ac amgylchedd cyffredinol

Mae posterï dwyieithog, arddangosfeydd ac yn y blaen yn cynorthwyo'r ddelwedd yn fawr, a phe byddai cyfle i ddefnyddio cerddoriaeth gefndirol, gellid cynnwys rhywfaint o gerddoriaeth Cymraeg. Dylai unrhyw adloniant a gynigir geisio cynnwys elfen iaith Gymraeg.